SKSG11

Tracio camerâu

Trosolwg

Mae'r Safon hwn yn ymwneud â symud camerâu ar hyd trac neu arwyneb addas arall. Mae'n gofyn am ddealltwriaeth drylwyr o, ac ymateb hyfyw i, unrhyw beryglon sy'n ymwneud â thrin, symud a gosod offer trwm.

Mae'n ymwneud `â chyfathrebu'n glir a manwl gyda'r aelod criw perthnasol er mwyn cyflawni atebion artistig sy'n cwrdd ag anghenion y cynhyrchiad.

Mae'r safon hwn ar gyfer unrhyw un sy'n tracio camerâu.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1 Symud camerâu mewn symudiad llyfn a dilyn gofynion y gweithredwr bob amser

2 Amseru symudiadau i gyd-fynd ag anghenion cynhyrchu

3 Adnabod symudiadau sydd y tu hwnt i allu'r offer neu a gyfyngir gan y bobl sydd ar gael

4 Adrodd am gyfyngiadau i weithredwyr camera a cheisio atebion sy'n cwrdd ag anghenion y cynhyrchiad

5 Rhoi hysbysiad clir o'r llwybrau bwriedig i bob person perthnasol

6 Gwirio fod llwybrau'n rhydd o bobl nad ydyn nhw'n hanfodol, ceblau a rhwystrau eraill

7 Cyfathrebu â phobl eraill mewn ffyrdd sy'n gwella ansawdd ac effeithlonrwydd symudiadau

8 Symud camerâu yn unol â gweithdrefnau trin â llaw

9 Diogelu a gwarchod offer pan nad yw'n cael ei ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1 Deddfwriaeth, canllawiau ac arfer orau cyfredol y diwydiant

2 Egwyddorion gweithredu offer tracio

3 Ystyriaethau diogelwch offer tracio

4 Ble i gael gwybodaeth am lwybrau bwriedig ac anghenion cynhyrchu

5 Unrhyw symudiadau bwriedig eraill

6 Cyfyngiadau lleoli offer

7 Pryd a sut i gynnal asesiadau risg trin â llaw

8 Gweithdrefnau trin â llaw gan gynnwys yr Offer Gwarchod Personol (PPE) sydd ei angen

9 Manteision gweithio fel tîm a sut i gyfathrebu ag eraill

10 Sut i sicrhau offer pan nad yw'n cael ei ddefnyddio

11 Pam ei bod hi'n bwysig cadw offer yn sych ac yn rhydd o lwch, tywod a malurion eraill

Tracio camerâu

Datblygwyd gan	Creative Skillset
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2018
Indicative Review Date	Mawrth 2022
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Screen Skills (gynt Creative Skillset)
RCU gwreiddiol	SKSG11
Galwedigaethau perthnasol	Technegydd Craen (Ffilm a theledu); Gweithredwr Craen (Ffilm a theledu); Grip dan hyfforddiant; Grip
Cyfres/Set	Grips a thechnegwyr craeniau
Geiriau Allweddol	Grip, Camera, Tracio, Iechyd a diogelwch